



Taflen Weithgaredd
4

BYWYD GWYLLT HYFRYD CYMRU

(a sut i'w ddenu)

Mae 'na lawer iawn o greaduriaid diddorol i'w darganfod a does dim rhaid ichi fynd yn bell i ddod o hyd iddyn nhw! Mae eich gardd yn lle perffaith i greu eich gwarchodfa natur fach eich hunan.

BYDD ANGEN...

- Menig garddio da i ddiogelu'ch dwylo.
- Deunyddiau naturiol megis pren, gwellt a dail sydd wedi syrthio.
- Cymysgedd o flodau a choed i'w plannu (rhai brodorol fyddai'n ddelfrydol!) (mae hyn yn ddeuwisol).
- Hadau adar yr ardd, calonnau afalau neu aeron.

Gadewch inni droi'r ardd yn gyrchfan i fywyd gwyllt lleoli!

PORFA HIR

Anghofiwch am eich peiriant torri porfa a gadewch i'ch gardd dyfu'n wyllt â phorfa hir a blodau gwyllt.

Yn rhyfeddol oherwydd... bod amrywiaeth eang o beillwyr pwysig a rhywogaethau eraill yn dibynnu ar y cynefin hwn i gael bwyd a lloches.



GWESTY TRYCHFLIOD

Defnyddiwch ddeunyddiau naturiol megis pren, gwellt, cerrig a dail sydd wedi syrthio, ynghyd â hen baled pren i greu sylfaen gadarn.

Mae'n rhyfeddol oherwydd... bod trychfilod wrth eu boddau â'r holl gilfachau a'r craciau cysurus.



COED FFRWYTHAU

Plannwch goed ffrwythau yn eich gardd – gorau oll po fwyaf fo'ch amrywiaeth o blanhigion!

Wonderful because... trees that flower attract a whole host of creatures including bees and butterflies, while the fruit provides food for birds and larger animals.



CORNELI BACH CYSURUS

Cadwch dwmpathau rwbwl, compost a boncyffion pren o gwmpas eich gardd.

Maen nhw'n rhyfeddol oherwydd... eu bod yn ddefrydol ar gyfer llu o greaduriaid bach cyfeillgar, megis brogaod, nadroedd defaid a draenogod.



PORTHWYR ADAR

Denwch eich ffrindiau pluog drwy gydol y flwyddyn â stoc ddigonol o ffrwythau, cnau a hadau.

Maen nhw'n rhyfeddol oherwydd... eich bod yn gallu helpu i ofalu am yr adar pan fydd bwyd yn brin.



CREADURIAID Y PYLLAU

Mae angen dŵr ar bob creadur byw i oroesi. Creu pwll yw un o'r ffyrdd gorau o ddenu bywyd gwyllt i'ch gardd.

Maen nhw'n rhyfeddol oherwydd... eu bod yn denu gweision y neidr, mursennod ac amffibiaid megis llyffantod, brogaod a madfallod dŵr.



Peidiwch â chadw'ch gardd yn rhy daclus. Mae'r corneli bach cudd yn llefydd gwych i greaduriaid bychain greu cartref.

Mwynhewch y darganfod!

Parc Rhanbarthol
y Cymoedd



Valleys
Regional Park



Cronfa Gymdeithasol Ewrop
European Social Fund



Llywodraeth Cymru
Welsh Government